# Cofnodion Cyfarfod 5/6/2025

**Presennol:** Cyng Moira Mai, Jacqueline Allen, Ken Edwards, Sion McGuiness, Clare Mackintosh, Rhys Evans, Huw Symonds, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Dilys Evans, Eifion Roberts ac Eric Williams.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Yn absenoldeb y Maer estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Dirprwy Faer, y Cyng Moira Mai.
2. **Buddiant:** Datganwyd buddiant gan y Cyng Sion McGuiness yn eitem 9.1c (cais trwydded Hufen Ia Aran).
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 1/5/25.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

    i. Aelodaeth Is bwyllgorau: Fe adolygwyd aelodaeth yr is bwyllgorau am y flwyddyn 2025/2026 er mwyn sicrhau fod y pwyllgorau yn gynrychiolaeth deg o'r aelodau.

    ii. Lloches Bws ger Cae Croes: Gan na dderbyniwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â phanel gwydr coll un o'r llochesi, gofynnwyd i'r Cyng Dilwyn Morgan i drafod hyn gyda'r swyddogion priodol.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan, a dywedodd ei fod yn ceisio cael dyddiad gan y Tim Tacluso Ardal Ni i baentio gwaith metel hysbysfyrddau ac arwyddion y dref, ac hefyd i wneud gwaith chwynnu angenrheidiol.

6. **Is-bwyllgorau:**

**Is bwyllgor Asedau:** Adroddwyd fod baneri Draig Goch wedi eu gosod baner ar safle Tomen y Bala a ger Canolfan Hamdden Penllyn.
**Is Bwyllgor y Nadolig:** Adroddwyd fod cais wedi ei wneud am gostau darparu goleuadau Nadolig.
**Is bwyllgor Cyllid:** Nodwyd fod cyfarfod o'r is bwyllgor wedi ei drefnu at Fehefin 16eg i ystyried archwiliad o gyfrifon y cyngor am 2024/2025.

**Is bwyllgor Tref Gyfeillgar:** Cytunwyd i barhau gyda'r drafodaeth i ddatblygu'r dref fel tref dementia gyfeillgar.
**Is bwyllgor Bioamrywiaeth:** Adroddwyd fod Adroddiad Bioamrywiaeth yn cael ei baratoi. Adroddwyd hefyd fod y pwyllgor yn cydweithio gyda Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru i drefnu noson codi ymwybyddiaeth y Wennol Ddu ar Fehefin 16eg. Dosbarthwyd posteri ar gyfer yr achlysur, a nodwyd fod angen ei roi ar y wefan. Nodwyd fod angen prisiau ar gyfer bocsys blodau fel y llynedd.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**
**Cymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn:** Adroddwyd fod cyfarfod o'r gymdeithas Wedi ei gynnal, a bod cynrychiolwyr y Cyngor Tref wedi cael cyfle i roi gwybodaeth am gyfraniad ariannol y cyngor fis Mawrth.
**Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod cyfarfod diweddaraf y cwmni wedi ei gynnal yn Ystafell Celyn, sef yr ystafell gyfarfod newydd o fewn Canolfan Bro Tegid. Nodwyd fod y cwmni yn paratoi cais am gyllid i ariannu gwaith Gwedd 2 ar y ganolfan, fydd yn cynnwys ail bwyntio'r adeilad ac addasu mynediad a thoiledau ar gyfer y llai abl. Nodwyd hefyd fod trafodaethau yn parhau ar ddatblygu cynllun ynni cymunedol a thrafnidiaeth gymunedol.

7. **Materion Cynllunio**: Derbyniwyd cais cynllunio i osod paneli solar, giât a chamerâu ar safle Warden Llyn Tegid. Cytunwyd i gefnogi'r cais, ac i drafod y trefniadau gyda'r wardeiniaid lleol.
Derbyniwyd hefyd gais i osod arwydd wedi ei oleuo ar ffenest siop y Co-op. Cytunwyd i wrthwynebu'r cais gan na fyddai'r datblygiad yn gweddu hefo Stryd Fawr y Bala a'r Ardal Gadwraeth, ac y gallai gyfrannu at lygredd golau yn y dref.

*8.* **Materion Cyllid:**
   **i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £15,914 yn y cyfri cyfredol, £27,018 yn y cyfri cadw a £228 yng Nghronfa'r Maer.
   ii. Nodwyd derbyn canran o incwm meysydd parcio'r dref gan Gyngor Gwynedd.
   **iii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, taliad cyflog y Clerc, taliad yswiriant y cyngor, anfoneb Hill & Roberts am brosesu cyflogau'r cyngor, anfoneb Meirion Jones am blanhigion a chafnau blodau, a chostau'r Cyng Jacqueline Allen am brynu compost.
   **iv.** Derbyniwyd gwybodaeth am fwriad i drefnu Gorymdaith Llusern yn y dref, gyda chais i'r cyngor gefnogi'r digwyddiad trwy lythyr, ac hefyd ystyried cyfraniad ariannol tuag at y digwyddiad. Cytunwyd fod angen gwybodaeth ychwanegol am drefniant y digwyddiad cyn y gall y cyngor ystyried cyfraniad.
   **v.** Cyflwynwyd Ffurflen Flynyddol y Cyngor am 2024/2025, ac fe gymeradwywyd y ffurflen yn barod i'w chyflwyno i'r archwilwyr. Cytunwyd i benodi Cyngor Gwynedd fel Archwilwyr Mewnol.

**9. Gohebiaeth:**

i) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd llythyr yn gwahodd y cyngor i drafod ail sefydlu Clwb Ieuenctid yn y dref. Cytunwyd i wahodd y swyddog i'r cyfarfod nesaf o'r cyngor. Derbyniwyd gwybodaeth am Gronfa Gwynedd Ni, sef cronfa benodol ar gyfer cynghorau cymuned a thref, a gofynnwyd i'r Is Bwyllgor Cynllun Creu Lle i ystyried cynlluniau posibl. Derbyniwyd copi o gais am drwydded i werthu diodydd alcoholaidd yn siop Hufen Ia Aran. Yn dilyn trafodaeth fe gytunwyd i fynegi pryderon am werthu diodydd alcoholaidd mewn awyrgylch ble mae plant yn bresennol, am yr oriau agor arfaethedig ac am y pryder y gallai'r datblygiad arwain at yfed ar y stryd oherwydd cyfyngder gofod yn y siop.

ii) Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd gwybodaeth am Gronfa Cymunedau Eryri, am Gytundeb Cyflawni y Cynllun Datblygu Lleol ac am ddigwyddiad Natur Eryri ym Mhlas Tan y Bwlch ar Fehefin 25ain, pryd y dywedodd y Cyng Fiona Hopkins a Moira mai y byddent yn cynrychioli'r cyngor.

iii) Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am yr angen i baratoi Cynllun Bioamrywiaeth i'r cyngor, a nodwyd fod cynllun ar y gweill.

iv) Mantell Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am Gronfa Sector Wirfoddol Gwynedd.

v) Campio anghyfreithlon: Derbyniwyd llythyr yn tynnu sylw at gampio anghyfreithlon ger y Clwb Rygbi, a nodwyd fod y llythyr hefyd wedi ei anfon at Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd. Nodwyd y gallai arwyddion addas fod o gymorth mewn sefyllfa fel hyn.

vi) Ymddygiad gwrthgymdeithasol: Derbyniwyd gwybodaeth am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal Heol y Castell, a nodwyd fod yr heddlu yn ymwybodol o'r sefyllfa.

vii) Gwasanaeth Bws T3: Derbyniwyd gwybodaeth gan Mabon ap Gwynfor am addasiadau i'r amserlen bysiau, a nodwyd fod y trefniant newydd yn welliant sylweddol ar y sefyllfa.

10. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**

Tynnwyd sylw at arwyddion uniaith Saesneg sydd wedi eu gosod ar y Co-op, ac fe gytunwyd i gysylltu i wneud cais am arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog.
Nodwyd fod Urdd Gobaith Cymru wedi cyhoeddi y gall Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2028 ddod i Wynedd, ac fe gytunwyd i gysylltu i ofyn i'r Bala gael ei ystyried fel safle bosibl ar gyfer yr ŵyl.

Daeth y cyfarfod i ben am 9pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 3 Gorffennaf 2025.



ARWYDDWYD......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)